

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Gobeithio bod y llythyr hwn yn eich cyraedd chi i gyd yn ddiogel ac iach.

Hoffwn eich hysbysu o ambell beth i'ch helpu i baratoi at drosglwyddiad eich plentyn i Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe ym Mis Medi.

Gwisg Ysgol - Wrth feddwl am baratoi i'ch plentyn ddod i Fryn Tawe, hoffwn eich atgoffa i archebu'r wisg ysgol gywir a'r cit Addysg Gorfforol o siop Bergoni, yn Llansamlet **cyn diwedd Mis Gorffennaf** er mwyn sicrhau y bydd gwisg ysgol eich plentyn yn barod gyda chi cyn Mis Medi. Dyma ddolen i'w safwe:
<https://www.bergoni.co.uk/collections/bryntawe>

Nos Fawrth 2nd o Orffennaf - Am 6 o'r gloch bwriadwn gynnal noson ar gyfer rhieni a disgylion Blwyddyn 6 yn Neuadd Cilfwnwr Ysgol Bryn Tawe. Fe fydd rhieni yn cael cyfle i holi cwestiynau a chael gwybod ym mha ddosbarth fydd eu plentyn. Fe fydd y disgylion yn cael cyfle i gwrdd â'u cyd-ddisgyblion a gwneud gweithgareddau hwylus i ddechrau dod i adnabod ei gilydd.

Yr Wythnos Bontio:

Dydd Llun yr 8^{fed} o Orffennaf – diwrnod o wersi ym Mryn Tawe. Fe fydd eich ysgol gynradd yn trefnu cludiant i'r disgylion gyrraedd erbyn 9.30yb. **Fe fydd angen i'ch plentyn ddod â brechdanau neu arian cinio – tua £2.50 (arian mân yn unig) er mwyn prynu cinio.** Fe fydd cinio rhad yn cael ei ddarparu ar gyfer y disgylion hynny sydd yn ei dderbyn.

Dydd Mawrth y 9^{fed} o Orffennaf – Diwrnod o weithgareddau datrys problemau a gweithio fel tîm ym Mryn Tawe. Fe fydd eich ysgol gynradd yn trefnu cludiant i Fryn Tawe ac yn ôl i'ch ysgol gynradd erbyn diwedd y dydd. **Fe fydd angen i bob plentyn ddod â brechdanau.** Fe fydd pecynnau bwyd yn cael eu darparu ar gyfer y disgylion hynny sydd yn derbyn cinio rhad. Fe fydd angen i ddisgyblion wisgo dillad addas ar gyfer gwneud gweithgareddau corfforol e.e. cit Addysg Gorfforol yr ysgol gynradd.

Dydd Mercher y 10^{fed} - dydd Gwener 12^{fed} o Orffennaf - Cwrs pontio yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog. Bydd rhaglen amrywiol a chyffrous ar gyfer eich plentyn ac rwy'n siŵr bydd pob disgyl yn elwa'n fawr o'r profiad unwaith eto. Fe fyddwn yn gadael ar fore ddydd Mercher y 10^{fed} tua 9:30 – 10.00 y.b o ysgol gynradd eich plentyn (mwy o fanylion i ddilyn). Fe fyddwn yn dychwelyd brynhawn ddydd Gwener y 12^{fed} erbyn diwedd y diwrnod ysgol.

Cofiwch fod angen dod â sach gysgu yn ogystal â chlustog a dillad addas, **bydd rhaid gwisgo llewys hir a throwsus hir ar gyfer POB gweithgaredd**, gwiriwch y rhestr ddillad a oedd yn atodedig i'r ffurflen feddygol. Peidiwch â gadael i'ch plentyn ddod ag offer gwerthfawr gyda nhw e.e. ffônau symudol am resymau diogelwch. Mae siop yn y gwersyll, felly bydd ychydig o arian yn ddefnyddiol – dim mwy na £10.

Os oes unrhyw gwestiwn neu bryder gennych yna cysylltwch â mi yn yr ysgol.

Yn gywir,
Miss Angharad Jenkins
(Cydlynnydd Pontio)



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies



6/6/24

Dear Parent/Guardian,

I hope this letter finds you safe and well. I would like to inform you of a few things to assist you in preparation for the arrival of your child in Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe in September.

School Uniform - Whilst you're thinking of preparing your child for the move to Bryn Tawe, I would like to underline the importance of ordering the school's uniform and PE kit from the Bergoni shop, in Llansamlet **before the end of July**, in order to ensure they have their school uniform ready for September. See their website here:

<https://www.bergoni.co.uk/collections/bryntawe>

Tuesday July 2nd – We intend to hold a meeting for parents and pupils of Year 6, starting at 6:00 p.m. in Bryn Tawe's Cilfwnwr hall. Parents will have the opportunity to ask questions and find out in which class their child has been placed. Pupils will meet their classmates and will take part in some fun activities in order to begin to get to know each other.

The Transition Week:

Monday 8th of July – a day of lessons at Bryn Tawe. Transport will be arranged by your primary school. **The pupils will need to bring sandwiches or some lunch money – approximately £2.50 (loose change only) to be able to buy lunch.** Pupils who receive free school meals will be provided for.

Tuesday 9th of July – A day of problem solving and team building activities at Bryn Tawe. Your primary school will arrange transport to and from your primary school to Bryn Tawe. **All pupils will need to bring a packed lunch.** Packed lunches will be provided for pupils who receive free school meals. Pupils should wear clothes suitable for taking part in physical activity e.g. the primary school's PE kit.

Wednesday 10th of July – Friday 12th of July - Transition course at Llangrannog. An exciting and varied programme will be provided for the pupils and I'm sure that they will benefit from the experience. We will be leaving on Wednesday morning (10th) at approximately 9:30 – 10.00a.m from your child's primary school (Details to be confirmed). We will be returning on Friday afternoon (12th) before the end of the school day.

Please remember that a sleeping bag and pillow are required, as well as suitable clothing – **both long sleeves and long trousers MUST be worn during all activities;** please see the clothing list attached to the medical form. Please do not allow your child to bring any valuable items e.g. mobile phones for safety reasons. There is a small gift shop at the centre; therefore a small amount of money would be useful – no more than £10.

If you have any queries, please don't hesitate to contact me at school.

Yours faithfully,
Miss Angharad Jenkins
(Transition Co-ordinator)



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyroedd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies



 BUDDSODDWYR
MEWN POBL | Aur

 Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales